

# Wedding Traditions - Wales & Beyond

## Traddodiadau Priodas - Cymru a Thy Hwnt



Illustration from the Laws of Hywel Dda, Peniarth Ms.28.  
© The National Library of Wales

Delwedd o Gyfraith Hywel Dda, Peniarth Ms.28  
© Llyfrgell Genedlaethol Cymru



Tony and Alma Fowles cutting the wedding cake at their reception,  
St James's Church School Room, Rhosddu, 1959

Tony ac Alma Fowles yn torri'r gacen briodas yn eu derbyniad priodas,  
Ystafell Ysgol Eglwys Saint James, Rhosddu, 1959

Weddings have always been expensive. In medieval Wales according to the laws of Hywel Dda, the father of the bride had to pay the groom a sum of money called 'agweddi' (a dowry). The groom had to pay the bride a sum of money called 'cowyll'. The higher the status of her dad, the more he had to pay. Finally the father of the groom had to pay the local lord or prince a sum of money called 'amobr' (bride price).

Bu priodasau'n ddrud erioed. Yng Nghymru oesoedd canol, yn unol â chyfraith Hywel Dda, roedd rhaid i dad y briodferch dalu swm o arian o'r enw 'yr agweddi' (gwaddol) i'r priodfab. Roedd rhaid i'r priodfab dalu swm o arian o'r enw 'y cowyll' i'r briodferch. Po fwyaf oedd statws ei thad, po fwyaf y bu rhaid iddo ei dalu. Yn olaf, roedd rhaid i dad y priodfab dalu swm o arian o'r enw'r 'amobr' i'r arglywydd neu dywysog lleol.

Wedding cakes first appeared in Roman times. In their current form, they came from France in the 17th century. Originally there were two cakes. The groom's cake – a rich substantial fruit cake and the bride's cake – a lighter cake decorated with icing and sugar ornaments. The modern wedding cake often combines the two traditions.

Ymddangosodd cacenni priodas am y tro cyntaf yn ystod yr oes Rufeinig. Ar eu ffurf bresennol, fe ddaethant o Ffrainc yn ystod yr 17eg ganrif. Yn wreiddiol, fe fu dwy gacen. Cacen y priodfab – cacen ffrwythau fras, sylweddol, a chacen y briodferch – cacen fwy ysgafn wedi'u haddurno ag eisín ac addurniadau siwgr. Mae'r gacen priodas fodern yn aml yn cyfuno'r ddua draddodiad.



Wedding presents have always been an important part of the celebrations. Traditionally, the families of the bride and groom would arrange for a 'gwahoddwr' (bidder) to tour the locality inviting people to the 'neithior' (wedding feast). The bidder would wear a hat and apron garlanded with flowers and ribbons. He usually carried a decorative stick. His job was to call at people's homes (he usually had a list of houses to visit), recite a poem or sing a song, and then he would encourage the household to give money to the couple. All the gifts were recorded down and older people could tell anyone who owed them money to give it to the bride and groom instead. The new couple would be expected to support other newly married couples in the future.

Bu anrhegion priodas yn rhan bwysig o'r dathliadau erioed. Yn draddodiadol, byddai teuluoedd y briodferch a'r priodfab yn trefnu i 'wahoddwr' grwydro'r ardal yn gwahodd pobl i'r neithior. Byddai'r gwahoddwr yn gwisgo het a ffedog wedi'u haddurno â blodau a rhubanau. Roedd yn cario ffon addurnedig fel arfer. Ei swyddogaeth oedd galw yn nhai pobl (fel arfer byddai ganddo restr o dai i'w hymweld â nhw), adrodd cerdd neu ganu cân, ac wedyn annog y teulu i roi arian i'r pâr. Cofnodwyd yr holl anrhegion a gallai pobl hŷn ddweud wrth unrhyw un oedd mewn dyled iddynt dalu'r arian i'r pâr oedd yn priodi yn lle. Roedd disgyl i'r pâr newydd gefnogi cyplau eraill oedd newydd briodi yn y dyfodol.